
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Llais y Lle

# Canllawiau'r Gronfa 2024




Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Cynnwys

Cyflwyniad ..... 1
Nôd y gronfa ..... 2
Blaenoriaethau'r gronfa ..... 3
Cymhwysedd ..... 4
Asesu ac adrodd ..... 5
    Yr Ymgeisydd ..... 5
    Y syniadau creadigol ..... 5
    Ni allwn gefnogi ..... 5
    Am faint alla i geisio? ..... 6
Dolenni ac arweiniad ddefnyddiol ..... 7
Cynaliadwyedd ..... 9
Sut mae ymgeisio? ..... 10
Cysylltu â ni ..... 11

## Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd i'w ddarllen, Braille, sain ac Arwyddeg. Ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais. Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

# Cyflwyniad

Rhaglen loteri yw cronfa Llais y Lle sydd wedi ei datblygu gan Ysgogydd y Gymraeg CCC a'r Consortiwm Celf Cymreig. Dyma ail flwyddyn y gronfa.

Rôl a grëwyd gan Gyngor y Celfyddydau yw Ysgogydd y Gymraeg fel ymateb i'r deg argymhelliad a nodwyd yn **adroddiad mapio'r Gymraeg**. Rôl yr Ysgogydd yw ymchwilio, cefnogi a datblygu strategaethau a chyfleoedd a fydd yn tyfu llais creadigol ac argaeledd y Gymraeg ar draws y sector celfyddydol. Crëwyd Consortiwm Celf Cymreig i helpu i lywio'r gwaith hwn a'i gynghori.

Grŵp o 12 ymarferydd celfyddydol yw'r Consortiwm Celf Cymru o amrywiaeth eang o feysydd creadigol sydd â phrofiad ac arbenigedd o ran integreiddio'r Gymraeg yn eu hymarfer. Mae'r consortiwm wedi nodi pedwar maes allweddol i'w harchwilio. Mae Llais y Lle yn un o'r meysydd allweddol hynny.

Mae cymuned yn le ac yn ddrych i'n hiaith a'n diwylliant. Mae Llais y Lle yn ymchwilio pwysigrwydd lleoliad wrth rannu a dathlu celf, yr iaith, a'n diwylliant gan ganoli'r gofod daearyddol a diwylliannol yn y broses greu.

Y nod yw archwilio dull newydd o ariannu hirdymor ar gyfer artistiaid a chymunedau unigol, gan ddefnyddio arian loteri i greu galwad agored fydd yn edrych ar bosibiliadau gyda phwyslais cryf ar ymchwil.



Diwrnod Rhannu (Llun: Iolo Penri)

# Nôd y gronfa

Nôd y gronfa hon yw datblygu'r defnydd creadigol o'r Gymraeg o fewn cymunedau. Bwriad Llais y Lle yw annog hyn drwy gefnogi unigolion creadigol i weithio'n ddwys o fewn cymuned a gweithio ar y cyd i ddatblygu defnydd a pherchnogaeth y Gymraeg.

Bwriad y gronfa yw mynd i'r afael a'r cwestiwn canlynol:

**Sut gallwn osod y Gymraeg a diwylliant Cymraeg yng nghanol creadigrwydd cymunedol gan annog perchnogaeth a defnydd o'r Gymraeg yn y presennol a'r dyfodol?**

Rydym yn chwilio am syniadau fydd yn darganfod ffyrdd creadigol o weithredu a gosod sail cadarn i ddatblygu at y dyfodol. Rydym eisiau ceisiadau fydd yn greadigol a rhagweithiol wrth fynd i'r afael â'r cwestiwn.



Diwrnod Rhannu (Llun: Iolo Penri)

Nid oes disgwyl i chi wybod beth bydd penllanw'r gwaith wrth geisio. Rydym yn parchu pwysigrwydd creu gofodau ar gyfer darganfod a threialu gweithredoedd creadigol. Yr hyn sy'n bwysig yw'r dulliau creadigol sy'n cael eu cynnig er mwyn mynd i'r afael â 'r gofyn. Chi a'r gymuned sydd i benderfynu ar y dulliau mwyaf perthnasol.

Yr hyn sydd angen ei osgoi ar bob cyfrif yw arwahanrwydd celfyddydol. Rhaid i'r prosiect herio, ymateb a chydweithio gyda'r gymuned yn gyson. Bydd gofyn i chi gofnodi'r effaith a'r datblygiad gydol cyfnod y gweithgarwch trwy gynllunio gyda'r gymuned.

Mae gweithredu hir dymor yn allweddol ar gyfer unrhyw ddatblygiad felly bydd gofyn i chi gynnig syniadau fydd yn galluogi trosglwyddo perchnogaeth o'r gweithgareddau i aelodau'r gymuned. Gall hyn gynnwys grymuso a galluogi aelodau i drefnu neu ddatblygu eu gweithgareddau eu hunain a/neu rymuso unigolion creadigol o fewn cymunedau.

Bydd gofyn gweithio am flwyddyn (dim yn llawn amser) ar y gwaith hwn gan ymuno mewn sesiynau rhannu a thrafod yn ystod y prosiect gyda'r ymarferwyr eraill, aelodau'r consortiwm celf Cymraeg, ymchwilwyr ac ysgogydd y Gymraeg. Byddwch yn casglu, rhannu, asesu ac addasu yn ôl gofynion y gymuned gan rannu'r wybodaeth gyda ni yn ystod y sesiynau trafod a phedwar dyddiad adrodd. Byddwch yn dilyn templad Canlyniadau yn seiliedig ar atebolrwydd.

Rydym yn croesawi partneriaeth gyda mudiadau cymunedol a/neu sefydliadau celfyddydol ond rhaid i'r gwaith gael ei arwain gan yr unigolyn/ion creadigol.

# Blaenoriaethau'r gronfa

Yn dilyn blwyddyn gyntaf lwyddianus o weithredu Llais y Lle, rydym eisiau sicrhau bod cymunedau ar draws amrywiaeth daearyddol Cymru yn cael cyfle am nawdd trwy'r ail gronfa felly rydym yn blaenoriaethu rhai ardaloedd. Rydym hefyd yn ystyried buddsoddiad celfyddydol presennol Cyngor Celfyddydau Cymru mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru wrth lunio'r rhestr. Mae modd ceisio am nawdd y tu hwnt i'r ardaloedd yma ond bydd unrhyw geisiadau o'r ardaloedd daearyddol canlynol yn derbyn blaenoriaeth:

Caerffili, Torfaen, Gogledd Powys, Ynys Môn, Dinbych, Conwy, Sir Benfro, Abertawe, Blaenau Gwent

Bydd disgwyl i bob cynllun llwyddianus ymrwymo i ddiwrnodau rhannu wyneb yn wyneb mewn lleoliadau amrywiol ledled Cymru. Pwrpas y diwrnodau yw i rannu, cwestiynu a dysgu wrth ein gilydd.

Pan fyddwn yn sôn am **Gymuned** a **Chymunedau**, rydym yn cydnabod nad yw'r rhain wedi'u cyfyngu i ddaearyddiaeth a lle yn unig. Mae sawl math o Gymuned yn bodoli.

**Mae ein dehongliad o leoliad yn cynnwys cymunedau penodol daearyddol yn ogystal a chymunedau diwylliannol. Y bobl yn y lle sy'n bwysig. Rydym yn eich gwahodd i gyflwyno syniadau creadigol am ddatblygu defnydd, perchnogaeth a balchder yn y Gymraeg gyda'r bobl o fewn cymuned benodol.**

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn gweithgarwch creadigol sy'n cyfrannu at y canlyniadau canlynol:

- ymgysylltu â phobl o fewn cymunedau i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol;
- ymchwilio i bosibiliadau ac anghenion datblygiadau creadigol Cymraeg cymunedol;
- creu neu ddatblygu gwaith creadigol mewn cydweithrediad a'r gymuned;
- defnyddio dulliau cyfranogol perthnasol i roi llais i leoliadau trwy gyfrwng y Gymraeg;
- cefnogi unigolion o'r gymuned ddatblygu syniadau a gweithredoedd eu hunain trwy fentora a rhoi perchnogaeth o weithredoedd yn eu dwylo nhw;
- datblygu partneriaethau, cyfnewidfeydd a chydweithrediadau artistig cymunedol;
- pontio rhwng rhwydweithiau cymunedol yn gelfyddydol;
- datblygu sgiliau a chyfleoedd creadigol yn lleol;
- ystyriaeth a chyfleoedd i siaradwyr newydd ar unhryw gam o'u taith iaith a chefnogaeth i unigolion ar ddechrau eu gyrfa greadigol;
- perchnogaeth cymunedol hir dymor o'r datblygiadau;
- asesu effaith ac addasu syniadau drwy gydol y cyfnod gweithredu (Canlyniadau yn seiliedig ar atebolrwydd). Gwybodaeth isod.

# Cymhwysedd

Mae'r gronfa yn agored i unigolion creadigol sy'n frwd dros ddatblygu'r Gymraeg.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion creadigol (neu griw o unigolion) o bob cefndir sy'n byw yng Nghymru. Mae'n rhaid i un unigolyn gymryd yr awenau a bod yn gyfrifol am y cais, y cyllid a'r adrodd.

Rydym yn croesawu ceisiadau sydd eisioes gyda chytundeb gyda mudiadau cymunedol a bydd disgwyl i bob cynllun geisio datblygu cytundeb o'r fath os nad oes un mewn lle cyn dechrau.

Rydym yn croesawu cynlluniau fydd yn rhannu'r dysgu gyda sefydliadau creadigol a ieithyddol ac yn cyd gynllunio datblygiadau'r dyfodol gyda nhw.

Gall ymgeiswyr fod ar unrhyw le ar y llwybr dysgu Cymraeg ond rhaid dangos sut bydd ymgeiswyr di-Gymraeg yn galluogi cyfathrebu creadigol Cymraeg.

Rhaid i'r ymgeisydd allu bod yn bresennol yn y gymuned. Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau ar gyfer gweithio rhithiol neu ymgysylltu o bell er bod modd defnyddio technegau rhithiol o fewn y gweithgarwch os mae'n fuddiol.

Byddwn yn derbyn ceisiadau sy'n cynnig syniadau creadigol am ddatblygu'r Gymraeg o fewn unrhyw gymuned yng Nghymru, beth bynnag yw eu perthynas presennol a'r Gymraeg.

Mae pobl o fewn pob cymuned yn amrywiol a gall un gymuned gynnwys nifer o gymunedau llai oddi mewn iddi. Mae modd cyflwyno cais ar gyfer gweithio gydag un o'r cymunedau llai hynny er byddwn yn chwilio am syniadau sy'n datblygu eu cyswllt gyda'r gymuned ehangach.

I fod yn gymwys i wneud cais fel unigolyn Creadigol (sy'n cynnwys unig fasnachwyr ac unigolion sy'n masnachu fel busnes), rhaid i chi fod:

- yn gallu gwneud cais yn enw cyfreithiol yr unigolyn sy'n gwneud y cais;
- â chyfrif banc yn eich enw cyfreithiol;
- dros 18 oed ac yn byw yng Nghymru;
- ddim mewn addysg llawn amser yn yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol;
- yn gallu dangos hanes dulliau o weithio'n greadigol gyda chymunedau.

# Asesu ac adrodd

Caiff y ffactorau canlynol eu hystyried wrth asesu ceisiadau:

**Bydd gan yr Ymgeisydd:**

- hanes cryf o weithio'n greadigol gyda chymunedau;
- gwybodaeth am ddulliau creadigol i ddatblygu defnydd a pherchnogaeth iaith;
- gwybodaeth ac adnabyddiaeth o'r gymuned cyn gwneud cais;
- y gallu a/neu'r profiad o gydweithio, rhannu a rhoi llais i unigolion a grwpiau cymunedol.



Carnifal Trebiwt

**Syniadau creadigol sydd yn:**

- cyflwyno syniadau cyffrous i fynd i'r afael â'r cwestiwn a ofynnwyd;
- yn amrywiol, cyffrous ac yn cael eu harwain gan y gymuned;
- gosod datblygiad y Gymraeg wrth wraidd gweithredu;
- edrych tuag at y dyfodol ac yn sicrhau perchnogaeth i'r gymuned;
- galluogi partneriaeth sy'n gweithio'n gymunedol ac yn greadigol;
- cyflawni amcanion a blaenoriaethau Cyngor Celfyddydau Cymru;
- cyfrannu at drafodaethau a chanfyddiadau'r rhaglen ehangach.

**Ni allwn gefnogi:**

- gweithgarwch hyrwyddo yn unig;
- cymryd rhan neu fod yn bresennol mewn digwyddiadau cystadleuol;
- gynlluniau sy'n cael eu harwain gan sefydliadau;
- syniadau sydd ddim yn cyfrannu tuag at mwy o ddefnydd o'r Gymraeg;
- gweithgareddau na all barhau na datblygu ymhellach yn y dyfodol;
- gweithgareddau nad ydynt yn greadigol mewn dull gweithredu neu ganlyniad.

Caiff cyfarfodydd y panel sy'n penderfynu ar grantiau eu cadeirio gan Ysgogydd y Gymraeg a bydd yn cynnwys cydlynydd, swyddogion a chydweithwyr yn y Celfyddydau sy'n aelodau o'r Consortiwm Celf Cymraeg.

Bydd y panel grantiau yn dewis rhaglen amrywiol o syniadau o'r ceisiadau. Byddant yn sicrhau y bydd y cynigion llwyddiannus yn ateb y cwestiwn a ofynnwyd mewn gwahanol leoliadau daearyddol, diwylliannol ac ieithyddol.

Bydd ceisiadau llwyddiannus yn dilyn proses adrodd. Gelwir y broses hon yn Atebolrwydd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau. Dyma broses sy'n rhoi'r canlyniad a ddymunir yng nghanol yr holl syniadau a gweithgareddau arfaethedig.

Byddwn ni'n gosod pedwar dyddiad adrodd ar gyfer pob cais er mwyn sicrhau hyblygrwydd wrth ymateb i anghenion a syniadau'r cymunedau.

Byddwn yn rhoi'r ddogfennaeth a'r hyfforddiant perthnasol i chi.

Mae'r canfyddiadau a ddarganfuwyd yn ystod y broses hon gyda'n helpu i lywio unrhyw iteriadau posibl o'r gronfa hon yn y dyfodol a'r effaith y mae wedi'i chael.

## Am faint alla i geisio?

£30,000 yw'r uchafswm cyllid y gellid ceisio amdano. Byddwn hefyd yn cefnogi unigolion sy'n datblygu eu hymarfer ac ymgysylltu â'r gymuned gyda chynnig llai. Bydd angen i chi nodi pa swm yr ydych yn gwneud cais amdano wrth wneud cais.

**Llais y Lle – hyd at £30,000**
Gweithredu'n ddwys yn y gymuned gan ymateb i ofynion a chyfleoedd y gymuned honno a chyflawni holl amcanion y gronfa.

**Llais y Lle Llai – hyd at £7,500**
Yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn gan ganolbwyntio ar ddatblygiad personol a chamau gweithredu penodol o fewn cymuned. Disgwylir i'r unigolion fynychu'r pedwar digwyddiad rhannu yn ystod y flwyddyn.

Y ganran uchaf o'ch cyfanswm costau prosiect cymwys y gallwn ei ariannu yw 90%. Dylid cadarnhau o leiaf 10% o gyfanswm eich costau a thystiolaethu cyfraniad mewn da gan y gymuned. Efallai eich bod hefyd yn sicrhau ffynonellau incwm eraill ond dylai hynny ddod o ffynhonnell sydd ddim yn dod o gronfa Cyngor Celfyddydau Cymru neu'r Loteri Genedlaethol.

Gellir talu costau mynediad ychwanegol. Gweler y meini prawf cymhwysedd yma.

Mae hwn yn brosiect blwyddyn o hyd; dylai'r holl gynigion ddechrau ym Mehefin 2024 a rhaid iddynt ddod i ben erbyn Mai 2025.

# Dolenni defnyddiol a chanllawiau

## Gwirfoddoli a chefnogaeth 'mewn da'

Mae cymunedau gwydn yn gweithredu mewn modd cefnogol i'w gilydd trwy rannu adnoddau ac amser. Bydd eich gweithredoedd yn cyd-fynd a'r dull cyfranogol hwn trwy annog a gosod pwysigrwydd ar weithredu 'mewn da'. Mae hefyd yn bwysig ystyried anghenion ariannol unigolion a sefydliadau yn yr amser anodd hwn trwy sicrhau bod modd derbyn cefnogaeth mewn da. Lle and oes modd, mae'n bwysig cynnwys y gost yn y gyllideb.

Gall gwerth mewn da olygu amryw bethau. Nid yw'r rhestr hon yn un derfynol, bwriedir iddi fod yn ganllaw:

- amser gwirfoddoli a'i werth ariannol ar gyfer gofal plant, dosbarthu gwybodaeth, arbenigedd ymarferol perthnasol, cynllunio, trafod cymunedol, stiwardio;
- marchnata;
- gwerth defnyddio lleoliad fyddai'n arferol yn codi tâl;
- adnoddau/deunyddiau perthnasol.

Er mwyn cyfrifo gwerth ariannol gwirfoddoli yng Nghymru, dilynwch y ddolen hon.

Gallai'r wefan hon eich helpu i olrhain yr oriau gwirfoddol a roddir i'r prosiect: www.volhours.com



Helfa Drysor Blodau Gwyllt, Baladeulyn

## Ffioedd unigolion creadigol proffesiynol

Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr eich bod chi'n talu eich hun, ac aelodau o'ch tîm, yn iawn. Dylai eich prosiect gynnwys ffioedd i dalu am eich amser chi a'u hamser nhw. Mae ffioedd yn gallu bod hyd at 100% o wariant eich prosiect.

Ni fyddwn ni'n ariannu cais lle nad oes ffi ar gyfer chi eich hun neu eich cydweithwyr neu ddim ond ffi isel iawn, iawn sydd yn y gyllideb. Hoffem weld eich bod wedi cyfeirio at gyfraddau safonau diwydiant sy'n berthnasol i'ch ymarfer chi a dylech chi o leiaf dalu cyfraddau lleiaf y diwydiant. Lle nad oes cyfraddau lleiafsymiol i'r diwydiant ar gael, rhaid ichi dalu'r Cyflog Byw Cenedlaethol o leiaf.



Diwrnod Rhannu (Llun: Iolo Penri)

Gall undebau llafur a sefydliadau cymorth gynnig arweiniad am gyflogau a ffioedd lleiaf mewn diwydiant.

| Pwy/Dolen | Ar gyfer |
|---|---|
| a-n | Cwmni Gwybodaeth Artistiaid (i artistiaid gweledol) |
| AOP | Cymdeithas Ffotograffiaeth |
| BECTU | Yr Undeb Darlledu, Adloniant, Cyfathrebu a Theatr (i staff technegol) |
| Equity | I actorion, cantorion a dawnswyr |
| ISM | Cymdeithas Gorfforedig y Cantorion |
| itc | Cyngor Theatr Annibynnol (i ymarferwyr theatr) |
| Musicians' Union | Undeb i gerddorion |
| WGGB | Urdd Ysgrifenwyr Prydain |
| UK Theatre | I staff theatr a cherddorion |

**Dylech nodi:** Mae angen i unrhyw ffioedd dros £5,000 gael eu hysbysebu a'u recriwtio drwy ddetholiad agored oni bai fod rhesymeg glir dros beidio â gwneud hyn, y bydd angen ei hesbonio yn eich cais.

## Cymorth hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i wneud ein proses grantiau a’r prosiectau rydym ni’n eu hariannu yn hygyrch i bawb.

Cliciwch ar y ddolen i weld yr amryw ffyrdd gallwn eich cefnogi.

## Cynaliadwyedd

Dylai ymgeiswyr ystyried effaith amgylcheddol eu prosiect. Mae’r adnoddau i helpu gyda hyn yn cynnwys:

- www.carbonfootprint.com/calculator.aspx
- Adnoddau ar wefan Julie’s Bicycle



Drama Llanfairfechan

## Canlyniadau yn seiliedig ar atebolrwydd (OBA)

Mae OBA yn lens ddefnyddiol i ddechrau trafodaethau am wella canlyniadau. Mae’n dechrau gyda ‘diwedd’, h.y. y canlyniadau yr hoffai rhanddeiliaid eu cyflawni ar gyfer cymunedau.

- **Dangosyddion:** Dyma’r mesurau a ddefnyddir i helpu mesur y cyflawniad hyd yma.
- **Mesurau perfformiad:** Defnyddir y rhain i werthuso pa mor dda y mae cynllun yn perfformio.

Byddwn ni’n gosod pedwar dyddiad adrodd ar gyfer pob cais er mwyn sicrhau hyblygrwydd wrth ymateb i anghenion a syniadau’r cymunedau.

Byddwn yn rhoi’r ddogfennaeth a’r hyfforddiant perthnasol i chi.

## Prosesau diogelu

Er mwyn sicrhau bod pawb fydd ynghlwm a’r cynllun yn ddiogel ac yn cael eu trin yn deg bydd disgwyl i’r unigolion creadigol feddu ar prawf DBS cyfredol a bydd angen i chi sicrhau eich bod yn dilyn prosesau a pholisiau cyfredol. Gall hyn olygu eich polisiau a’ch prosesau eich hun neu gytundeb i ddefnyddio polisiau a phrosesau mudiad neu sefydliad. Bydd angen i chi nodi pa bolisiau byddwch yn eu dilyn fel rhan o’ch cais.

# Sut mae ymgeisio?

Os ydych yn dymuno siarad am eich syniadau cyn gwneud cais mae'n bosib i chi cysylltu ag Ysgogydd y Gymraeg: einir.sion@celf.cymru

Bydd sesiynau friffio arlein ar 6 Chwefror am 6yh ac 8 Chwefror am 5yh, os ydych yn dymuno clywed mwy am y gronfa.

I wneud cais:

1. Bydd angen i chi ddefnyddio ein porth ar-lein i wneud cais. Os nad ydych wedi gwneud hynny'n barod, bydd angen i chi gofrestru i gael mynediad i'r porth. Gallwch ddarganfod sut i wneud hyn yma. Os oes gennych unrhyw broblemau, neu os nad ydych yn gallu cael gafael ar y ffurflen ar-lein, cysylltwch â'r tîm grantiau a gwybodaeth drwy grantiau@celf.cymru.
2. Cwblhewch ffurflen gais Llais y Lle trwy'n porth ar-lein.
3. Cwblhewch daenlen gyllideb, gallwch ddod o hyd i gopi o hyn yma.

## Anghenion o ran mynediad

Os oes gennych unrhyw anghenion o ran mynediad ac rydych yn ystyried cyflwyno cais, gallwn helpu i sicrhau y cewch gefnogaeth yn ystod y broses ymgeisio. Cysylltwch â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth yn grantiau@celf.cymru i drafod unrhyw gymorth ychwanegol a all fod ei angen arnoch.

Gallwch hefyd wneud cais am gostau cymorth mynediad i chi neu i unrhyw un sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'ch prosiect.

4. Uwch-lwythwch y deunydd ychwanegol canlynol yn eich cyflwyniad. Sicrhewch fod hyn yn cael ei uwch-lwytho mewn un dogfen Word.
   - Cynnig mewn ymateb i'r cyfle. Gellir darparu hyn fel testun neu fformat sain/fideo. Gall hyn fod yn uchafswm o 2 ochr i'r A4 neu 10 munud o sain neu fideo.
   - Curriculum Vitae (uchafswm 2 ochr A4).
   - 2 eirda/lythyr ysgrifenedig. Rhaid i'r rhain fod gan unigolion allweddol yn y gymuned neu sefydliadau cymunedol rydych yn bwriadu gweithio gyda nhw. Dylai'r rhain hefyd weithredu fel tystiolaeth o unrhyw gefnogaeth mewn da gan y gymuned.
5. Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn anfon Derbyniad am Wobr atoch. Mae penderfyniadau'r panel yn derfynol. Os nad ydych wedi bod yn llwyddiannus, byddwn yn ysgrifennu i esbonio pam a chynnig cyfle i gael adborth.
6. Ar ôl i chi arwyddo a dychwelyd eich Llythyr Derbyn ac unrhyw amodau grant eraill byddwn yn rhyddhau'r taliad cyntaf.

# Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ar gymhwysedd neu am drafod eich syniadau ar gyfer y gronfa hon, cysylltwch â'n Ysgogydd y Gymraeg: einir.sion@celf.cymru

Os oes gennych unrhyw broblemau technegol gyda'r ffurflen gais neu eich cyfrif porth, cysylltwch â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth: grantiau@celf.cymru

## Mae ffyrdd eraill y gallwch gysylltu â ni:

Ffoniwch: 03301 242733 (codir pob galwad am gyfraddau lleol)
Oriau: 9am-5pm dydd Llun-dydd Iau, 9am-4.30pm dydd Gwener

Gwefan: celf.cymru

Facebook: Cyngor Celfyddydau Cymru | Arts Council of Wales

Trydar: @Arts_Wales_

Instagram: celfcymruarts